**Sesiwn 2000-2001 Rhif 30**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD IAU, 9 TACHWEDD 2000

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i gymryd y Cynnig canlynol Heb Ddyddiad Trafod ar Ethol i Bwyllgorau**

O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cytunwyd y cynnig trefniadol**

## ETHOL I BWYLLGORAU

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag Adran 57(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol i **banel cadeiryddion y pwyllgorau pwnc**:

Val Feld
Richard Edwards
Gwenda Thomas
Cynog Dafis
Rhodri Glyn Thomas
Glyn Davies
Kirsty Williams

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag Adrannau 57(5) a (6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a rheol sefydlog 9.3, yn penderfynu **dethol aelodau canlynol panel cadeiryddion y pwyllgorau pwnc i gadeirio'r pwyllgorau pwnc canlynol**:
- Val Feld i gadeirio'r Pwyllgor Pwnc Datblygu Economaidd.
  Richard Edwards i gadeirio Pwyllgor Pwnc yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.
  Gwenda Thomas i gadeirio Pwyllgor Pwnc Llywodraeth Leol a Thai.
  Cynog Dafis i gadeirio Pwyllgor Pwnc Addysg a Dysgu Gydol Oes.
  Rhodri Glyn Thomas i gadeirio Pwyllgor Pwnc Diwylliant.
  Glyn Davies i gadeirio Pwyllgor Pwnc Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.
  Kirsty Williams i gadeirio Pwyllgor Pwnc Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn rhoi cyfrifoldeb i'r Gweinidog Datblygu Economaidd yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a dethol Cadeirydd y pwyllgor pwnc yn unol ag adran 57(5) a (6) y Ddeddf a rheol sefydlog 9.3, yn penderfynu ethol aelodau eraill y **Pwyllgor Datblygu Economaidd** yn unol ag adrannau 57(7) ac (8) y Ddeddf, fel a ganlyn:

Christine Chapman
Alison Halford
Ron Davies
Christine Gwyther
Brian Hancock
Dafydd Wigley
Phil Williams
Glyn Davies
Alun Cairns

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod:

Y Prif Weinidog, gan weithredu yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a rheol sefydlog 2.4, wedi rhoi cyfrifoldebau i'r Gweinidog Datblygu Economaidd ym meysydd Datblygu Economaidd, Diwydiant a Thwristiaeth, ac yn unol ag adran 57(4) y Ddeddf, bydd cylch gwaith y pwyllgor Datblygu Economaidd yn cael ei lunio i gyfateb â hynny.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn rhoi cyfrifoldeb i Weinidog yr Amgylchedd yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a dethol Cadeirydd y pwyllgor pwnc yn unol ag adran 57(5) a (6) y Ddeddf a rheol sefydlog 9.3, yn penderfynu ethol aelodau eraill **Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth** yn unol ag adrannau 57(7) ac (8) y Ddeddf, fel a ganlyn:

John Griffiths
Tom Middlehurst
Karen Sinclair
Geraint Davies
Helen Mary Jones
Rhodri Glyn Thomas
David Davies
Mick Bates

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod:

Y Prif Weinidog, gan weithredu yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a rheol sefydlog 2.4, wedi rhoi cyfrifoldebau i Weinidog yr Amgylchedd ym meysydd yr Amgylchedd, Cefn Gwlad a Chadwraeth, Cynllunio Gwlad a Thref, Henebion ac Adeiladau Hanesyddol, Trafnidiaeth a Phriffyrdd, Dwr a'r Diwydiant Dwr, ac yn unol ag adran 57(4) y Ddeddf, bydd cylch gwaith pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn cael ei lunio i gyfateb â hynny.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn rhoi cyfrifoldeb i'r Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol

a Chymunedau yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a dethol Cadeirydd y pwyllgor pwnc yn unol ag adran 57(5) a (6) y Ddeddf a rheol sefydlog 9.3, yn penderfynu ethol aelodau eraill y **Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai** yn unol ag adrannau 57(7) ac (8) y Ddeddf, fel a ganlyn:

Peter Law
Tom Middlehurst
Janet Davies
Dai Lloyd
Janet Ryder
William Graham
Peter Black

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod:

Y Prif Weinidog, gan weithredu yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a rheol sefydlog 2.4, wedi rhoi cyfrifoldebau i'r Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym meysydd Llywodraeth Leol a Thai, ac yn unol ag adran 57(4) y Ddeddf, bydd cylch gwaith y pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn cael ei lunio i gyfateb â hynny.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn rhoi cyfrifoldeb i'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a dethol Cadeirydd y pwyllgor pwnc yn unol ag adran 57(5) a (6) y Ddeddf a rheol sefydlog 9.3, yn penderfynu ethol aelodau eraill y **Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes** yn unol ag adrannau 57(7) ac (8) y Ddeddf, fel a ganlyn:

Huw Lewis
Alun Pugh
Lorraine Barrett
Janice Gregory
Gareth Jones
Pauline Jarman
Jonathan Morgan
Christine Humphreys

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod:

Y Prif Weinidog, gan weithredu yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a rheol sefydlog 2.4, wedi rhoi cyfrifoldebau i'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes ym meysydd Addysg, y Gwasanaeth Gyrfaoedd a hyfforddiant yn ymwneud â gwaith, ac yn unol ag adran 57(4) y Ddeddf, bydd cylch gwaith y pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cael ei lunio i gyfateb â hynny.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn rhoi cyfrifoldeb i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a dethol Cadeirydd y pwyllgor pwnc yn unol ag adran 57(5) a (6) y Ddeddf a rheol sefydlog 9.3, yn penderfynu ethol aelodau eraill y **Pwyllgor Diwylliant** yn unol ag adrannau 57(7) ac (8) y Ddeddf, fel a ganlyn:

Delyth Evans

Lorraine Barrett
Rosemary Butler
Alison Halford
Owen John Thomas
Gareth Jones
Jonathan Morgan

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod:

Y Prif Weinidog, gan weithredu yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a rheol sefydlog 2.4, wedi rhoi cyfrifoldebau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ym meysydd y Celfyddydau, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd, Chwaraeon a Hamdden ac ieithoedd Cymru, ac yn unol ag adran 57(4) y Ddeddf, bydd cylch gwaith y pwyllgor Diwylliant yn cael ei lunio i gyfateb â hynny.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn rhoi cyfrifoldeb i'r Gweinidog Materion Gwledig yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a dethol Cadeirydd y pwyllgor pwnc yn unol ag adran 57(5) a (6) y Ddeddf a rheol sefydlog 9.3, yn penderfynu ethol aelodau eraill y **Pwyllgor Amaethyddiaeth a Materion Gwledig** yn unol ag adrannau 57(7) ac (8) y Ddeddf, fel a ganlyn:

Delyth Evans
John Griffiths
Huw Lewis
Elin Jones
Jocelyn Davies
Janet Ryder
Peter Rogers
Mick Bates

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod:

Y Prif Weinidog, gan weithredu yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a rheol sefydlog 2.4, wedi rhoi cyfrifoldebau i'r Gweinidog Materion Gwledig ym meysydd Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Coedwigaeth a Chynhyrchu Bwyd, ac yn unol ag adran 57(4) y Ddeddf, bydd cylch gwaith y pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cael ei lunio i gyfateb â hynny.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn rhoi cyfrifoldeb i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a dethol Cadeirydd y pwyllgor pwnc yn unol ag adran 57(5) a (6) y Ddeddf a rheol sefydlog 9.3, yn penderfynu ethol aelodau eraill y **Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** yn unol ag adrannau 57(7) ac (8) y Ddeddf, fel a ganlyn:

Brian Gibbons
Ann Jones
Lynne Neagle
Dai Lloyd
Brian Hancock

Geraint Davies
David Melding

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod:

Y Prif Weinidog, gan weithredu yn unol ag adran 56(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a rheol sefydlog 2.4, wedi rhoi cyfrifoldebau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym meysydd Iechyd a Gwasanaethau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol a Diogelwch Bwyd, ac yn unol ag adran 57(4) y Ddeddf, bydd cylch gwaith y pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei lunio i gyfateb â hynny.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 28.2, yn penderfynu ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol i **Bwyllgor y Ty**:

Janice Gregory
Elin Jones
Glyn Davies
Peter Black ac

yn ethol Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd, i gadeirio'r pwyllgor.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 16.2, yn penderfynu ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol i'r **Pwyllgor Safonau Ymddygiad**:

Janice Gregory
Christine Gwyther
Karen Sinclair
Gwenda Thomas
Cynog Dafis
Brian Hancock
Gareth Jones
Christine Humphreys ac

yn ethol David Melding i gadeirio'r pwyllgor.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag Adran 60(3) a (5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol i'r **Pwyllgor Archwilio**:

Ann Jones
Alison Halford
Peter Law
Lynne Neagle
Jocelyn Davies
Dafydd Wigley
Alun Cairns
Kirsty Williams ac

yn ethol Janet Davies i gadeirio'r pwyllgor.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 14.3, yn penderfynu ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol i'r **Pwyllgor Cyfle Cyfartal**:

Lorraine Barrett
Richard Edwards
Christine Gwyther
Ann Jones
Helen Mary Jones
Janet Ryder
Owen John Thomas
Jonathan Morgan
David Melding
Christine Humphreys ac

yn ethol Edwina Hart i gadeirio'r pwyllgor.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 15.4, yn penderfynu ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol i'r **Pwyllgor Materion Ewropeaidd**:

Rosemary Butler
Val Feld
Christine Chapman
John Griffiths
Ieuan Wyn Jones
Rhodri Glyn Thomas
Phil Williams
Nick Bourne
Jonathan Morgan
Mick Bates ac

yn ethol Rhodri Morgan i gadeirio'r pwyllgor.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag Adran 59(2) a (4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol i'r **Pwyllgor Deddfau**:

Rosemary Butler
Ron Davies
Val Feld
John Griffiths
Dai Lloyd
Pauline Jarman
Owen John Thomas
Glyn Davies ac

yn ethol Mick Bates i gadeirio'r pwyllgor.

**Cymerwyd pleidlais: Oherwydd nam technegol ar y system bleidleisio electronig, galwyd am un bleidlais ar gyfer yr holl etholiadau a restrir uchod, trwy alw enwau.**

O Blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52

**Cymeradwywyd y cynnig**

**9.15am**

**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon**
Gofynnwyd y **7** cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 5.

**9.36am**

**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig**
Gofynnwyd y **6** chwestiwn cyntaf

**9.54am**

**Datganiad:** Gwnaeth **y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** ddatganiad ar Adolygiad Carlisle ar Blant a Phobl Ifanc sy'n derbyn triniaeth a gofal gan yr NHS.

**10.04am**

**Pwyntiau o Drefn**

Cododd **Nick Bourne** bwynt o drefn ynghylch arddangosfeydd yn y Neuadd. Dywedodd y Llywydd mai mater i Bwyllgor y Ty yw hynny erbyn hyn.

**10.14am**

**Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i gymryd y Cynnig canlynol Heb Ddyddiad Trafod ar yr ymchwiliad annibynnol i safle claddu gwastraff Nant-y-gwyddon.**

O Blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39

**Cytunwyd y cynnig trefniadol**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu y bydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn parhau â'r ymchwiliad annibynnol i safle tirlenwi Nantygwyddon a gyfeiriwyd i gyn Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 4 Gorffennaf 2000, ac y bydd gweithredoedd y Pwyllgor hwnnw i'w hystyried fel gweithredoedd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ddibenion yr ymchwiliad.

**Pleidleisiwyd:**

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd y cynnig**

**10.17am**

**Cymeradwyo Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000**
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000.

Mynegodd nifer o Aelodau fuddiant fel athrawon neu lywodraethwyr ysgol

**Pleidleisiwyd:**

O Blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45

**Cytunwyd ar egwyddor Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2000.

(b) yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000

**Pleidleisiwyd:**

O Blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44

**Cytunwyd ar Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000**

**10.39am**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Dadl ar Ddogfen Raglennu Sengl Amcan 2**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- Yn nodi gyda chymeradwyaeth y Ddogfen Raglennu Sengl, y cytunodd Partneriaeth Dwyrain Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd arni, ar gyfer ardaloedd Amcan 2 a'r Rhaglen Drosiannol yn y Dwyrain, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Tachwedd 2000.
- Yn galw ar y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, gyda chytundeb y Bartneriaeth, i ychwanegu unrhyw destun ychwanegol neu wneud unrhyw newidiadau testunol yn ôl yr angen, i fodloni'r gofynion technegol sydd eu hangen i sicrhau bod y ddogfen yn cael cymeradwyaeth ffurfiol y

Comisiwn Ewropeaidd cyn gynted â phosibl.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig:**

- Yn mynegi pryder y bydd gweithredu'r rhaglen Amcan 2 yn cael ei danseilio gan raglenni eraill y Gronfa Strwythurol ac yn galw am i'r holl bartneriaid roi'r cymorth angenrheidiol, yn enwedig ar gyfer y sector preifat.

**2. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn cymeradwyo'r gydnabyddiaeth yn y Ddogfen Raglennu Sengl y gallai twf economaidd heb ei gynllunio gael effaith amgylcheddol negyddol, ac yn annog ymrwymiad digonol i ddatblygiadau fel: cynlluniau ynni adnewyddadwy cynaliadwy lleol; cyfathrebu band eang; ailgylchu gwastraff a hwyluso gallu'r cyhoedd i fanteisio ar drafnidiaeth gyhoeddus, i sicrhau cyfuniad o dwf economaidd cynaliadwy ac effaith amgylcheddol gadarnhaol.

**3. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn galw ar y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i weithredu ar gais y Comisiwn Ewropeaidd, fel a gynhwysir yn ei ymateb i'r Dogfennau Rhaglennu Sengl drafft, i fabwysiadu targedau penodol ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu;

**4. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn annog Llywodraeth Glymblaid Cymru i sefydlu Partneriaeth Genedlaethol i gyd-drefnu'r polisïau gwledig a gynhwysir ym Mlaenoriaeth 5 o'r Rhaglen Amcan 1, Blaenoriaeth 2 o Raglen Amcan 2; y Cynllun Datblygu Gwledig a Menter Gymunedol LEADER+;

**5. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn cymeradwyo'r bwriad i rannu cyfrifoldeb rhwng Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol a Lleol yn y Rhaglen Amcan 2 ac yn gresynu'r methiant i sicrhau'r cyfryw raniad clir ar draws yr ystod gyfan o'r Rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru;

**6. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn cydnabod bod y cyllid ychwanegol a neilltuwyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant i gwmpasu Grantiau Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a’r Mentrau Cymunedol yn golygu cynnydd graddol yn y gwir wariant ac yn annog Llywodraeth Glymblaid Cymru i bwyso ar y Trysorlys i gadarnhau petai’r gwariant ar brosiectau gwerth chweil yn cynyddu’n gynt na’r hyn a ragwelwyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei neilltuo.

**11.48am**

**Pwynt o Drefn:** Gofynnodd **Ron Davies** beth oedd statws dogfennau nad oeddynt yn ddogfennau’r cynulliad o fewn y Cynulliad. Dywedodd **y Dirprwy Lywydd** mai peth cwrtais fyddai i aelodau gyfeirio at deitl y ddogfen ar gyfer y Cofnod a/neu sicrhau bod copi ar gael yn y Llyfrgell.

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 7; Ymatal 13; Yn erbyn 30; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 21; Ymatal 1; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**11.55am**

**Dadl Fer: Helen Mary Jones (Llanelli); Cyfrifiad a Hunaniaeth**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 14 Tachwedd 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 8 TACHWEDD 2000**

Cyngor Cefn Gwlad Cymru - Adroddiad Blynyddol 1999-2000 (Dim copiau electronig ar gael)

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 7 TACHWEDD 2000**

Leader + Single Programming Document for Wales 2000-2006 (Dim Copi Cymraeg Ar Gael)
West Wrexham Urban 2 Community Initiative (Dim Copi Cymraeg Ar Gael)
Ireland/Wales INTERREG IIIA Community Initiative Programme 2000-Dim Copi Cymraeg Ar Gael)
LC132 - Adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Comisynydd Plant Cymru (Penodi) 2000

LC133 - Adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2000